

Mark Drakeford AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

21 Medi 2017

Annogf Simon,

Rwyf yn ysgrifennu er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y cynnydd a wnaed yn ddiweddar mewn nifer o feysydd sy'n ymwneud â chyllid a threthi, ac i frw golwg ar y gwaith sydd o'n blaen.

Awdurdod Cyllid Cymru

Mae'r gwaith o sefydlu awdurdod treth newydd yn gymhleth ac mae iddo sawl elfen, gan gynnwys trethi, cyllid, materion digidol, data, a materion cyfreithiol. Mae tîm y rhaglen yn cydweithredu â chyfres eang o randdeiliaid a nifer o adrannau llywodraeth y DU i sicrhau bod prosesau a systemau ar waith erbyn mis Ebrill 2018. Bydd hyn yn galluogi Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) i ddarparu gwasanaeth trethi digidol dwyieithog i'w gwsmeriaid. Mae'r amcangyfrifon diweddaraf yn dangos bod modd rhoi ACC ar waith o fewn y ffigurau a gyhoeddwyd o'r blaen. Bydd rhaid i'r costau rhedeg blynyddol adlewyrchu'r dyletswyddau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chasglu'r tâl atodol am ail gartref ac annibyniaeth gweithredol yr Awdurdod.

Yfory, byddaf yn cyhoeddi enw'r sawl yr wyf wedi'i benodi'n brif weithredwr ACC ynghyd ag aelodau'r bwrdd. Dyfed Alsop, Cyfarwyddwr Cyflawni presennol ACC, fydd prif weithredwr cyntaf ACC, a hynny am gyfnod penodol hyd at fis Awst 2019. Gwneuthum y penderfyniad hwn yn dilyn cyfweiliad cyn penodi a gynhaliwyd gan Shan Morgan, yr Ysgrifennydd Parhaol; Kathryn Bishop, darpar gadeirydd ACC; a John Whiting, Aelod Annibynnol o'r Panel. Cadarnhaodd y panel cyfweild fod sgiliau a phrofiad Dyfed yn gydnaws â'r gofynion sy'n gysylltiedig â swydd prif weithredwr cyntaf ACC.

Cyn bo hir, bydd Kathryn Bishop yn cael ei phenodi'n ffurfiol yn gadeirydd cyntaf ACC. Er mwyn sicrhau bod digon o ehangder, profiad a gwybodaeth ar y bwrdd o'r cychwyn, rwyf yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

penodi pum aelod anweithredol i ymuno â Kathryn. Yn dilyn ymgyrch recriwtio penodiadau cyhoeddus lawn a chryn ddiddordeb yn y swyddi, dyma aelodau'r bwrdd: Martin Warren, David Jones, Jocelyn Davies, Dyfed Edwards a Lakshmi Narain (mae'r bywgraffiadau wedi'u hamgáu, er gwybodaeth).

Credaf fod rôl ACC a gwaith ei fwrdd yn hynod bwysig ac edrychaf ymlaen at eu cyfraniad i ddatganoli cyllidol dros y blynyddoedd nesaf.

Paratodau ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymreig

Mae'r paratodau ar gyfer cyflwyno cyfraddau treth incwm Cymreig (CTIC), sef treth y bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn parhau i'w chasglu, yn cadw at yr amserlen. Mae Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys, y Gwir Anrhydeddus Mel Stride AS, wedi cydnabod pwysigrwydd adlewyrchu cyd-destun Cymru yn y gwaith datblygu, ac mae wedi ymrwymo i helpu i gyflawni fy mhwm blaenoriaeth, fel a ganlyn:

- ymrwymiad gan Weinidogion Llywodraeth y DU ac uwch-swyddogion CThEM i ymgysylltu â Phwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol;
- cytundeb gan CThEM i rannu data amserol ac o ansawdd uchel ynglŷn â threthi incwm yng Nghymru ag ACC, fel y gall ACC ddarparu dadansoddiadau i ategu cyngor ar bennu cyfraddau treth incwm, fel y nodir yn y fframwaith cyllidol;
- cytuno ar ddull o ymdrin â chydymffurfiaeth â threthi incwm sy'n cyflawni anghenion Llywodraeth Cymru a CThEM;
- diffiniad clir o'r costau a chytundeb arnynt;
- cyfathrebu da â threthdalwyr Cymru, yn arbennig mewn cysylltiad â'r Gymraeg.

Mae Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys wedi cadarnhau y bydd yn rhoi'r holl wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid a'r Cynulliad Cenedlaethol yn y broses weithredu ac yn eu cynnwys ynddi'n llwyr. Mae wedi nodi mai Jim Harra, Cyfarwyddwr Cyffredinol CThEM ar gyfer y Strategaeth Gwsmeriaid a Chynllunio Trethi, yw'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol cyfrifol ar gyfer CTIC, a fydd ar gael i ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid ar gais, ac mae wedi cytuno y bydd y Swyddfa Archwilio Cenedlaethol yn cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad yn flynyddol ar berfformiad CThEM.

Fel y gwnaethoch ei nodi yn eich datganiad am y gwersi yn sgil diwygio cyllidol yn yr Alban, ~~bydd yn hanfodol gallu cael gafael ar ddata llawn, cywir ac amserol wrth i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol baratoi ar gyfer CTIC.~~ Mae Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys wedi cydnabod y pwynt hwn ac mae ei swyddogion yn gweithio gyda fy swyddogion i er mwyn sicrhau bod trefniadau ar waith sy'n peri bod y data angenrheidiol ar gael. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt hefyd i gytuno ar ddealltwriaeth a diffiniad clir o'r dewisiadau a'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu CTIC, a chynlluniau CThEM o ran gweithgareddau cydymffurfio mewn cysylltiad â CTIC.

Er mwyn helpu i sicrhau bod materion sy'n hanfodol i Gymru yn cael sylw llawn wrth baratoi ar gyfer CTIC, mae Llywodraeth Cymru a CThEM wedi sefydlu cyd-weithgor ar gyfathrebu. Bydd ffocws cryf ar y Gymraeg. Fel cam cychwynnol, rwyf wedi cytuno ar gynnig yr Ysgrifennydd Ariannol i ddefnyddio rhagddodiad 'C' i nodi trethdalwyr Cymru.

Arloesi i Arbed

Fis Chwefror, lansiodd Llywodraeth Cymru Gronfa Arloesi i Arbed, sef partneriaeth rhwng y Gronfa Buddsoddi i Arbed; Nesta, yr elusen arloesedd; Prifysgol Caerdydd; a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Sefydlwyd y gronfa newydd hon, sy'n werth £5 miliwn, i ddenu cynigion mwy arloesol, ac sydd felly â mwy o risg, o bosibl, a fyddai'n cael budd o arbenigedd Nesta mewn datblygu prosiectau ac o allu ymchwilio y Brifysgol. Mae CGGC yn darparu ei brofiad o'r trydydd sector yng Nghymru i'r fenter. Hyd y gwn, y dull a fabwysiadir yn y cyswllt hwn yw'r dull cyntaf o'i fath ac mae'n ennyn diddordeb nifer o lywodraethau eraill.

Daeth cyfanswm o 50 o geisiadau i law erbyn y dyddiad cau, sef 23 Mai. Bu'r rhain yn destun ymarfer dewis trylwyr a arweiniodd at nodi wyth prosiect i gael cymorth ariannol ac anariannol er mwyn ymchwilio i'w cynigion, eu datblygu, a'u mireinio. Pan fo'r cam hwn wedi'i gwblhau, bydd Llywodraeth Cymru yn gallu asesu pa rai o'r prosiectau a fydd yn cyflawni o ran gwella gwasanaethau a chreu manteision rhyddhau arian. Bydd y prosiectau llwyddiannus yn gallu gwneud cais am gymorth ariannol ad-daladwy i weithredu eu syniad yn llwyr. Rwyf yn disgwyl y bydd y cam hwn wedi'i gyrraedd yn gynnar yn 2018.

Ymysg y mathau o brosiectau sy'n cael cymorth mae: presgripsiynu cymdeithasol a bancio amser; plant sy'n derbyn gofal; rhannu asedau trafndiaeth yn y Gogledd; a threfniadau gofal i'r rhai sy'n agored i niwed. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chymysgedd amrywiol o sefydliadau, gan gynnwys elusen digartrefedd Llamau, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Leonard Cheshire Disability, Cyngor Gwynedd ac Innovate Trust.

Gwaith annibynnol o graffu ar ragolygon refeniw trethi

Disgwylir i Ysgol Fusnes Prifysgol Bangor gyflwyno adroddiad cyn bo hir ar ei waith annibynnol o graffu ar ragolygon refeniw trethi Llywodraeth Cymru, sydd i'w cynnwys yng Nghyllideb 2018-19. Byddaf yn cyhoeddi'r adroddiad ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft ar 3 Hydref er mwyn cyfrannu at ystiriaethau'r Cynulliad.

Bûm hefyd yn ystyried y dewisiadau yn y tymor hwy o ran y gwaith annibynnol o lunio rhagolygon refeniw trethi. Yn y cam hwn yn y broses ddatganoli gyllidol, nid wyf o'r farn ei bod yn gymesur creu corff rhagolygon annibynnol newydd yng Nghymru pan fo arbenigedd mewn cyrff sefydledig ar lefel y DU. Y dull yr wyf yn ei ffafrio ar hyn o bryd yw i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ymgymryd â'r cyfrifoldebau o ran rhagolygon annibynnol i Gymru. Byddai hyn yn peri bod angen newid gweithrediadau presennol OBR, gan gynnwys yr angen, fel y gwelaf y sefyllfa, iddi fod â lleoliad yng Nghymru. Byddaf yn parhau i gynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU ynglŷn â'r goblygiadau ymarferol ond, hyd yma, bu'n agored i'r syniad o OBR yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb ehangach hwn.

Is-ddeddfwriaeth

Mae rhaglen o is-ddeddfwriaeth yn mynd rhagddi fel y gellir cyflwyno'r trethi Cymreig. Ymhellach at y newidiadau a wnaed yn Rheol Sefydlog 27.8A, cadarnhaf isod yr offerynnau statudol yr wyf yn bwriadu eu gosod cyn 1 Ebrill 2018:

- Rheoliadau Datgeliadau a Ganiateir dan Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 [Hydref 2017] – gweithdrefn gadarnhaol
- Rheoliadau Gweinyddu'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi [Hydref 2017] – gweithdrefn negyddol
- Rheoliadau Trefniadau Ad-dalu y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi [Ionawr 2018] – gweithdrefn negyddol
- Rheoliadau Deddf Casglu a Rheoli Trethi: Awdurdod Cyllid Cymru (Pwerau i Ymchwilio i Droseddau) [Ionawr 2018] – gweithdrefn gadarnhaol
- Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Deddf Enillion Troseddau 2002) – Cymhwysu pwerau i ACC [Ionawr 2018] – gweithdrefn negyddol

- Rheoliadau Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000) [Ionawr 2018] – gweithdrefn negyddol
- Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Gweinyddu) (Cymru) [Ionawr 2018] – gweithdrefn negyddol
- Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) [Ionawr 2018] – gweithdrefn gadarnhaol
- Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) [Ionawr 2018] – gweithdrefn gadarnhaol
- Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) [Ionawr 2018] – gweithdrefn gadarnhaol
- Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Gweinyddu) (Cymru) 2017 [Rhagfyr 2017] – gweithdrefn gadarnhaol
- Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cofnodion) (Cymru) 2017 [Rhagfyr 2017] – gweithdrefn negyddol
- Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) 2017 [Ionawr 2018] – gweithdrefn gadarnhaol
- Chwe gorchymyn er mwyn cychwyn darpariaethau'r tair Deddf.

Byddwn yn croesawu'n arbennig safbwyntiau'r pwyllgor ynghylch y cyfraddau a'r bandiau ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi; rheoliadau gweinyddu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, yn arbennig darpariaethau profion colled wrth danio a chredyd ansolfedd cwsmeriaid; a'r rheoliadau ynghylch pwerau ymchwilio.

Cynllun Cymunedau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi

Ar 8 Medi, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y gwahoddiad i gyflwyno tendr er mwyn penodi corff dosbarthu a fydd yn gyfrifol am weinyddu Cynllun Cymunedau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi¹. Y bwriad yw penodi'r corff ym mis Rhagfyr ac iddo weithio gyda swyddogion er mwyn bod yn barod i gyhoeddi'r Cynllun erbyn 1 Ebrill 2018.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Pwyllgor Cyllid yn y flwyddyn sydd i ddod, yn y cyfnod cyffrous hwn o safbwynt datganoli, wrth inni sefydlu adran lywodraethol anweinidogol gyntaf Llywodraeth Cymru a chyflwyno trethi Cymreig cyntaf yr oes fodern.

In gywir,
Mark.

Mark Drakeford AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

¹ https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/search/show/search_view.aspx?ID=SEP214142

Kathryn Bishop

Cadeirydd

Mae Kathryn Bishop yn Gymrawd Cyswllt o Ysgol Fusnes Saïd ym Mhrifysgol Rhydychen, lle mae'n cyfarwyddo ac yn addysgu ar raglenni arweinyddiaeth i gwmnïau gwasanaethau proffesiynol a chorfforaethau rhyngwladol. Mae ganddi dros 30 mlynedd o brofiad o weithio gyda sefydliadau sy'n mynd trwy newidiadau mawr, a hynny yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae ei chefnidir yn cynnwys TG ac AD ac mae wedi gweithio fel cyfarwyddwr a rheolwr llinell, rheolwr prosiect ac ymgynghorydd. Mae hefyd wedi bod yn gyfarwyddwr anweithredol i nifer o gyrff.

Mae Kathryn wedi gweithio yng Nghymru a thros Gymru am y 15 mlynedd diwethaf: yn gyntaf fel Cyfarwyddwr Anweithredol yn Llywodraeth Cymru ac, yn fwy diweddar, fel Comisiynydd y Gwasanaeth Sifil dros Gymru, gyda chyfrifoldeb dros reoleiddio pob penodiad i'r Gwasanaeth Sifil. Bu hefyd yn gadeirydd anweithredol i nifer o gyrff y Llywodraeth, gan gynnwys yn Asiantaeth Ffiniau'r DU, sy'n rhan o'r Swyddfa Gartref, ac yn Swyddfa Eiddo Deallusol y DU.

Jocelyn Davies

Aelod Anweithredol o'r Bwrdd

Mae gan Jocelyn Davies ran amlwg yng ngwaith nifer o gyrff, gan gynnwys Panel Cynghori Comisiynydd Plant Cymru, Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Comisiynydd (Cadeirydd) a Phwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hefyd yn Ymddiriedolwr ac yn Is-gadeirydd i Fwrdd Gofal a Thrwsio Cymru. Mae Jocelyn hefyd yn aelod o'r Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd ac yn un o ymddiriedolwyr Undeb Credyd Plaid Cymru.

Yn ystod ei chyfnod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru (1999-2016), bu Jocelyn yn aelod o sawl pwyllgor, gan gynnwys y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'i ragflaenydd, y Pwyllgor Archwilio. Fe'i penodwyd yn Ddirprwy Weinidog yn Llywodraeth glymblaid Cymru'n Un rhwng Plaid Cymru a Llafur rhwng 2007 a 2011, gyda chyfrifoldeb dros dai ac adfywio. Yn ddiweddarach bu'n cadeirio Pwyllgor Cyllid y Cynulliad tan 2016.

Dyfed Edwards

Aelod Anweithredol o'r Bwrdd

Mae gan Dyfed wybodaeth eang am addysg yng Nghymru fel cyn-athro a llywodraethwr ysgolion cynradd ac uwchradd. Bu hefyd yn Arweinydd y Portffolio Addysg yng Nghyngor Gwynedd.

Dyfed yw cyn-Arweinydd Cyngor Gwynedd a bu'n Is-lywydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac yn gwasanaethu fel cynrychiolydd ar Is-grŵp Cyllid Llywodraeth Cymru/CLILC. Roedd Dyfed yn llefarydd ar nifer o bynciau yn ystod y cyfnod hwn.

Mae hefyd wedi bod yn aelod o Grŵp Arbenigwyr Llywodraeth Cymru ar Gartrefu Poblogaeth sy'n Heneiddio a Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymunedau Cymraeg Llywodraeth Cymru. Mae hefyd wedi gwasanaethu ar nifer o gyrff yng Ngwynedd ac wedi cael profiad o'r sector BBaCh, gan gynnwys ymwneud â chychwyn busnesau.

David Jones
Aelod Anweithredol o'r Bwrdd

Mae David Jones yn entrepreneur llwyddiannus ym maes technoleg sydd bellach yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn gweithio yn y sector cyhoeddus mewn ystod o swyddi ymgynghori a chynngori a swyddi anweithredol - y rhain oll yn canolbwyntio ar sut y gall datblygiadau digidol wneud gwasanaethau cyhoeddus yn well, yn rhatach ac yn fwy diogel.

Mae David yn gyfrannwr mynych i'r cyfryngau darlledu, gan drafod pynciau o seiberddiogelwch i Strategaeth Ddigidol y Llywodraeth. Mae ganddo nifer o swyddi anweithredol, gan gynnwys Cymwysterau Cymru, ac mae'n aelod o Banel Sector TGCh Llywodraeth Cymru.

Lakshmi Narain
Aelod Anweithredol o'r Bwrdd

Lakshmi Narain yw cadeirydd presennol cangen De Cymru o'r Sefydliad Siartredig Trethu (CIOT) ac mae'n aelod gweithredol o Fwrdd Strategol Cymru ar gyfer Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW). Trwy ei waith gyda'r cyrff hyn, mae Lakshmi wedi ymwneud â'r gwaith o ddatblygu a diwygio trethi niferus.

Mae gan Lakshmi ddiddordeb mawr mewn trethi, fel sy'n amlwg o'i brofiad amrywiol o ddarlithio, ei aelodaeth o fwrdd golygyddol y *Tax Journal* a'i rôl fel arbenigwr technegol ar drethi gyda nifer o gwmnïau gwasanaethau proffesiynol; hyn yn ogystal â'i waith fel golygydd a chyfrannwr i nifer o gyhoeddiadau trethi i bobl broffesiynol yn y maes. Lakshmi oedd Cynghorydd Arbennig y Pwyllgor Cyllid wrth iddo archwilio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 a Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017.

Mae Lakshmi yn Gymrawd o'r Sefydliad Siartredig Trethu (CIOT) a Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW).

Martin Warren
Aelod Anweithredol o'r Bwrdd

Mae Martin yn aelod o'r Bwrdd Cynghori ar Drethi a sefydlwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, ac mae'n aelod o Fwrdd Strategol Busnes Cymru. Mae'n ymddiriedolwr i nifer o gyrff, yn fwyaf arbennig elusen Menter yr Ifanc ac ef yw cadeirydd presennol y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Bu'n rhan o Fenter yr Ifanc ers 1995, gan ymuno â Bwrdd Cymru yn 2009 a dod yn Gadeirydd yn 2010. Roedd yn gyfrifol am ad-drefnu ac adfywio'r sylfaen wirfoddoli yng Nghymru, gan sefydlogi'r sefyllfa ariannol ac arwain Cymru i Fenter yr Ifanc Cymru a Lloegr, sydd bellach yn un corff.

Mae Martin yn gyfrifydd siartredig sydd wedi gweithio yn y sectorau preifat a chyhoeddus, yn fwyaf diweddar fel Cyfarwyddwr Cyllid ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae hefyd wedi ymwneud ag amryw o bwyllgorau fel cadeirydd, aelod ac ymddiriedolwr.